Annwyl Gwsmer

**Swyddfa Bost® Bangor Is-coed**
**A arferai fod yn: Y Stryd Fawr, Bangor Is-coed, Wrecsam, LL13 0AU**

Rwy’n ysgrifennu i gadarnhau y byddwn yn bwrw ymlaen â’n cynllun i ailagor y gwasanaeth hwn yn Eglwys Bresbyteraidd, Whitchurch Road, Bangor Is-coed, Wrecsam, LL13 0AY fel gwasanaeth Allgymorth Gwesteiol. Mae’n dda gennyf allu dweud y bydd y gwasanaeth newydd yn dechrau ddydd Iau 24 Mai 2018.

Cawsom 3 o ymatebion unigol gan gwsmeriaid yn ystod y cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd y prif adborth yn croesawu adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post i’r gymuned, ac roedd adborth hefyd yn mynegi pryderon ynghylch yr oriau agor a pharcio yn y lleoliad newydd.

Er fy mod wedi ystyried y pryderon am barcio yng nghyffiniau'r lleoliad newydd, mae’n deg dweud fod hyn yn broblem gyffredinol mewn sawl lleoliad ar draws y DG. Rwy'n siŵr y byddwch yn deall fod y lle sydd ar gael i barcio y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol Swyddfa'r Post Cyf. Fodd bynnag, rwyf wedi ailedrych ar y sefyllfa, ac rwy’n fodlon y bydd y parcio a’r mynediad i’r gwasanaeth newydd yn ddigonol i ateb gofynion cwsmeriaid a fydd yn defnyddio’r Swyddfa Bost.

Rydym yn sylweddoli y gall oriau’r gwasanaeth newydd fod yn llai cyfleus i rai cwsmeriaid, ond credwn y bydd oriau agor y gwasanaeth symudol yn ateb gofynion ein cwsmeriaid yn y gymuned ac yn caniatáu i ni gynnal gwasanaethau cynaliadwy iddynt yn yr hirdymor. Fodd bynnag, byddwn yn dal i adolygu a monitro'r gwasanaeth drwy'r amser, a phe bai cynnydd sylweddol yn y defnydd o'r gwasanaeth, byddem yn ystyried newid yr oriau agor yn unol â hynny.

Rwyf wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'n cynllun gwreiddiol a'r adborth a gafwyd yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus. Rwy'n ffyddiog fod y gangen newydd yn diwallu anghenion ein cwsmeriaid yn y gymuned leol.

Bydd posteri'n cael eu harddangos nawr i roi gwybod i gwsmeriaid am y penderfyniad hwn. Mae manylion pellach am y gwasanaeth newydd ar gael ar ddiwedd y llythyr hwn.

Mae’r wybodaeth hon ar gael hefyd yng Nghanolfan Ymgynghori Swyddfa'r Post yn postofficeviews.co.uk.

Diolch ichi am ystyried ein cynllun.

Yr eiddoch yn gywir

**Sarah Cottrell**
**Rheolwr Ardal dros Newidiadau i’r Rhwydwaith**

**Sut i gysylltu â ni:**

postofficeviews.co.uk

comments@postoffice.co.uk

FREEPOST Your Comments

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
Cofrestwyd Swyddfa’r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain. EC2Y 9AQ,
Mae Swyddfa’r Post a logo Swyddfa’r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa’r Post Cyfyngedig

Cafodd y broses gyfathrebu hon ei chytuno â chorff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr, sef y Cyngor ar Bopeth a Chyngor ar Bopeth yr Alban ym Mhrydain, a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n cael ei gweithredu yn unol â'n Cod Ymarfer ar gyfer newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post, a gytunwyd â nhw. Os hoffech gael copïau o'r Cod, maent ar gael mewn canghennau, neu wrth gysylltu â ni neu wrth ymweld â'n gwefan yn: postofficeviews.co.uk. Os ydych o'r farn nad ydym wedi dilyn y broses yn gywir ac yn dymuno gwneud cwyn, byddwch cystal ag anfon llythyr neu ebost atom wrth ddefnyddio'r manylion cyswllt yn ein posteri a llythyrau ac esbonio pam. Byddwn yn archwilio eich cwyn ac yn rhoi ateb i chi cyn gynted â phosibl. Byddwn yn rhoi'r mannau cyswllt perthnasol ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr i chi. Felly, os ydych yn dal yn anfodlon ar ôl derbyn ein hymateb, gallwch ofyn iddynt am eu cymorth.

**Manylion am y gwasanaeth newydd:**

| **Dalen wybodaeth Swyddfa Bost Bangor Is-coed** | |
|---|---|
| **Cyfeiriad** | Yr Eglwys Bresbyteraidd<br>Whitchurch Road<br>Bangor Is-coed<br>Wrecsam<br>LL13 0AY |
| **Oriau agor y Swyddfa Bost** | Iau 09:30 - 12:30 |
| **Pellter** | 70 metr o'r gangen flaenorol, ar hyd tir gwastad. |
| **Cynhyrchion a Gwasanaethau** | Bydd dewis eang o wasanaethau ar gael. |
| **Hygyrchedd a Gwaith hygyrchedd** | **Mynediad a chyfleusterau**<br>Mae yna ddwy fynedfa i'r eglwys. Mae yna risiau wrth y brif fynedfa.<br>Ceid ramp symudol wrth yr ail fynedfa ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.<br><br>**Trafnidiaeth/parcio**<br>Mae modd parcio gerllaw wrth ymyl y ffordd. |
| **Dyddiad yr ailagor** | Dydd Iau 24 Mai 2018 |

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu Braille, byddwch cystal â chysylltu â'r Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03452 66 01 15 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55.**